Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

2019/2020

# Adroddiad i'r Bwrdd Rheoli a Chyngor Celfyddydau Cymru #3

**Cyfnod dan sylw: 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019**




Bwythyn Encil Awduron Nant, Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

# Cynnwys

**Uchafbwyntiau**
Uchafbwyntiau Gweithredol, Sefydliadol a Gweithgarwch………… 3

**Effaith Sefydliadol**
Y newid hirdymor y byddwn yn ei gynhyrchu i Gymru..................... 5

**Canlyniadau Sefydliadol**
Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid………………………………………….... 5

**Allbynnau Sefydliadol**
Prif Nodau Llwyddiant mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd…….......................... 6
Mesurau Llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu…................................................. 9

**Gofynion Cyllido Ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru**
Adnewyddu Nant………………………………………………………......... 14

**Gwerthuso**
Gwersi Sefydliadol a Gweithredol i'w Dysgu ………………………... 15
Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau……………………………….. 16

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol a dwy eitem ychwanegol) a'n **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, ynghyd â'n **Nodau Llwyddiant Gweithredol** yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol** a **Gwersi** *newydd* i'w **Dysgu.**
- Er ei fod yn canolbwyntio ar **gynnydd rhwng 1 Awst a 30 Medi 2019**, mae hefyd yn cynnig cynnydd cronedig ers 1 Ebrill 2019.
- Mae'r targedau sydd wedi'u cynnwys yn berthnasol i'r **flwyddyn gyntaf** (2019/2020) o'r pedair blynedd yng Nghynllun Strategol 2019-2023. Mae'r targedau hyn yn cynrychioli ein dyheadau, mewn perthynas â'r prosiectau yn ein rhaglen weithredol a'n gweithgarwch presennol, yn ogystal â'n tueddiadau demograffig, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar sicrhau cyllid allanol ychwanegol, ac mae'n bosib y bydd rhai yn cael eu haddasu neu'n dod yn annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol yn effeithio ar rai prosiectau. Am y rhesymau hyn**, rhagamcan o sut bydd llwyddiant yn edrych yw'r targedau hyn, ac mae'n bosib y byddant yn destun adolygiad yn seiliedig ar resymeg**.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn yr adroddiad hwn, ynghyd ag un arall ar lefel prosiect mwy manwl, sy'n canolbwyntio ar gynnydd misol tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol*. Gall y Bwrdd Rheoli wneud cais i weld y ddogfen yn ôl yr angen, ac mae'n bosib y byddant yn dewis gwneud hynny'n achlysurol fel arfer da.

# Uchafbwyntiau

## Sefydliadol

- Cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru ei ail **Arolwg Rhanddeiliaid**, sef arolwg blynyddol i gael adborth am ein gwaith hyd yma.
- Ychwanegwyd yr adran **Ein Heffaith** at wefan Llenyddiaeth Cymru i roi tystiolaeth gref o'r modd y mae'n gwaith yn rhoi gwerth i'r sector, i gymdeithas ac i'r trethdalwr.

## Gweithgaredd

- Lansiwyd rhaglen cyrsiau agored **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** 2020. Mae dros 60 o awduron yn rhan o'r rhaglen, gan gynnwys nifer sydd wedi cyrraedd rhestrau'r gwerthwyr gorau, awduron llawryfog, a beirdd o fri.
- Dosbarthwyd dros 64,200 o gardiau post Cymraeg ar Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth i ysgolion a llyfrgelloedd ledled y Deyrnas Unedig, a hynny fel rhan o brosiect **Bardd Plant Cymru**.
- Dychwelodd **Her 100 Cerdd** fis Hydref am y seithfed flwyddyn o'r bron. Cyfansoddodd 4 bardd 100 o gerddi Cymraeg gwreiddiol mewn cwta 24 awr, a hynny fel rhan o ddathliadau Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth.
- Cafodd proffiliau 8 awdur o gefndiroedd wedi'u tangynrychioli sylw drwy ein sianeli cyfathrebu allanol, a hynny fel rhan o'r prosiect **Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli.**
- Rhoddodd y Cynllun Nawdd **Llên a Lles** gefnogaeth i 10 prosiect newydd sy'n cael eu harwain gan awduron, gyda'r nod o ysbrydoli a grymuso rhai o'n cymunedau mwyaf ymylol drwy helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol penodol.




## Gweithredol

- Rhoddwyd fersiynau cyhoeddus o **Adroddiadau Sefydliadol #1 a #2** ar wefan Llenyddiaeth Cymru i bobl eu gweld a'u lawrlwytho.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant mewnol i'r holl staff ar y polisïau newydd ym meysydd **Caffael, Taliadau i Ymddiriedolwyr,** a **Theithio a Chynhaliaeth.**
- Rhoddodd contractwr allanol hyfforddiant hanner diwrnod i'r holl staff am **Ragfarn Ddiarwybod,** a chafodd yr Uwch Dîm Rheoli sesiwn **Myfyrio ar Reoli Llinell** gan Sarah Drummond wrth i'n rhan yn y Rhaglen Wytnwch ddod i ben.




Dewis The Reading Agency a **Ffrindiau Darllen** ar gyfer Apêl Nadolig *The Times* 2019. Mae rhagor o wybodaeth fan hyn.




**Prosiectau arloesol a chynhwysol** wedi'u lansio ar gyfer amrywiaeth o grwpiau, gan gynnwys carcharorion a ffoaduriaid.



**Penwythnos Beirniaid Ifanc** yn Nhŷ Newydd fel rhan o'n Cynnig Addysgol. Cliciwch fan hyn i ddarllen am brofiad un a gymerodd ran




8 o egin awduron yn cael sylw fel rhan o'r Cynllun Nawdd Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli.




Lansio **'Rising Stars' Cymru** mewn partneriaeth â Firefly Press i ddod o hyd i feirdd plant talentog o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.



Cymerodd 12 o awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd ran mewn diwrnod rhwydweithio a diwrnod i'r diwydiant ym **Mhenwythnos y Gaeaf Gŵyl y Gelli.**




**Her 100 Cerdd** yn herio 4 bardd i greu 100 o gerddi Cymraeg mewn 24 awr**.**



**Bardd Cenedlaethol Cymru** yn perfformio yng Ngŵyl Transpoesie ym Mrwsel wrth roi llwyfan i Ddiwylliant Llenyddol Cymru




Lansio adran newydd sbon ar wefan Llenyddiaeth Cymru o'r enw **'Ein Heffaith'**, sy'n cynnwys ffeithluniau. Cliciwch fan hyn i'w gweld

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Effaith Sefydliadol a Chanlyniadau

<table>
<tr><th></th><th>Targed ar gyfer 31 Mawrth 2020</th><th>Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019</th><th>Dull casglu data</th></tr>
<tr><td>Effaith Sefydliadol</td><td>Byddwn ar ein ffordd i rymuso, gwella a goleuo bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach a llesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru</td><td rowspan="2">Mae ein Harolwg Hydredol 2019-2022 yn gofyn cwestiynau i sampl cynrychioladol o 10 o gleientiaid ddwywaith y flwyddyn, a hynny ynghylch effaith a chanlyniadau Llenyddiaeth Cymru. Mae’r holl gleientiaid wedi cwblhau’r arolwg cyntaf. Bydd dadansoddiad sy’n cymharu Arolwg #1 ac Arolwg #2 (a gaiff ei gynnal ym mis Chwefror 2020) yn cael ei gyflwyno yn yr haf.<br><br>Rydym hefyd wrthi’n canfod tri unigolyn newydd i gymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2020-2023 er mwyn cynyddu ehangder a chynaliadwyedd y sampl, gyda’r nod o wneud yr ymchwil yn fwy cynrychioladol a dibynadwy. Isod ceir dyfyniadau o adborth ansoddol dau gleient:<br><br>“Hyd yn oed os nad yw’r meistri’n deall eich gwaith, dydy hynny ddim yn golygu nad ydych chi’n perthyn. Y gwir yw’r peth cryfaf sydd gen i. Mae fy ngolwg ar y byd yr un mor bwysig â golwg unrhyw un arall arno...”<br><br>Cyfrannwr Arolwg Hydredol<br>2019-22<br><br>“Rwy’n credu bod fy set sgiliau bersonol wedi gwella drwy ymwneud â phrosiectau sydd wedi’u cefnogi gan Lenyddiaeth Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf. Alla’ i ddim dychmygu sut y gallwn fod wedi gwneud cais i fod yn Children’s Laureate Wales, na chael cynnig na derbyn y swydd, heb iddyn nhw fuddsoddi eu hamser a rhoi cymorth imi ddatblygu’n bersonol.”<br><br>Cyfrannwr Arolwg Hydredol<br>2019-22.</td><td rowspan="2">Arolwg Hydredol 2019-22</td></tr>
<tr><td>Canlyniadau Sefydliadol</td><td>Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael:<br><br>▪ Gwell sgiliau siarad ac ysgrifennu<br>▪ Mwy o hunanhyder<br>▪ Rhagor o gyfleoedd gwaith<br>▪ Llai o bobl yn teimlo'n ynysig<br>▪ Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well<br>▪ Cyfle i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd<br>▪ Gwell gallu i ddangos empathi<br>▪ Gwell sgiliau amlieithog</td></tr>
</table>

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi **cynyddu 0.6 pwynt canran i 8.8% erbyn 2022,** sy'n gyfwerth â **20,700 o bobl yn ychwanegol** | Bydd Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau ar gyfer 2019 yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth/Ebrill 2020. | Fel y nodwyd i'r chwith. | Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau |
| Mae o leiaf **106,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa** yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol | Rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2019, **mae 21,584 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd** wedi ymwneud â gweithgareddau sydd wedi'u trefnu neu wedi'u cefnogi gan Llenyddiaeth Cymru. Mae'r prif brosiectau cyfranogol parhaol (e.e. Llên Pawb) yn dechrau ar eu cyfnodau cyflawni, felly bydd y ffigur hwn yn cynyddu eto cyn diwedd y flwyddyn ariannol. | Hyd yma, mae cyfanswm o **68,135 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd** wedi ymwneud â gweithgareddau sydd wedi'u trefnu neu wedi'u cefnogi gan Llenyddiaeth Cymru. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **17% o'n cyfranogwyr creadigol** yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed. | Mae'r ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bellach **wedi'i chwblhau ac wedi'i hanfon at sampl cynrychioladol o gyfranogwyr** a fu'n rhan o'n prosiectau, gan gynnwys Llên a Lles, Bardd Plant Cymru a Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli. Byddwn wedyn yn cyflwyno'r ffurflen i'w defnyddio mewn prosiectau rydym yn bartner iddynt ac yn eu hwyluso. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno yn Adroddiad #4. | Amherthnasol | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Mae o leiaf **17 cyfranogwr creadigol** yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol. | **Mae 248 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron**.** Er enghraifft, ym mis Hydref, cafodd cyfranogwr a fu'n gleient mewn prosiect yng Nghanolfan Iechyd Meddwl Lôn Abaty ym Mangor ysgoloriaeth gennym i fynd ar gwrs Ysgrifennu i Iacháu yn Nhŷ Newydd. Mae wedi dechrau cynnal ei grŵp ysgrifennu ei hun yn y ganolfan fel hwylusydd. | Hyd yma, mae cyfanswm o **357 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Rydym yn darparu o leiaf **140 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** ar gyfer egin awduron yn flynyddol | Rydym wedi darparu **101 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** i awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2019, cymerodd 12 o awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd ran mewn diwrnod rhwydweithio a diwrnod i'r diwydiant ym Mhenwythnos y Gaeaf Gŵyl y Gelli, a hwnnw wedi'i drefnu mewn partneriaeth â phrosiect Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli. | Hyd yma rydym wedi darparu **223 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** i awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae ein gwybodaeth datblygu awduron ar-lein yn cael o leiaf **5,000 o ymweliadau unigryw** i'r tudalennau perthnasol yn flynyddol | Mae ein gwybodaeth ar-lein am ddatblygu awduron wedi cael ei gweld **6,823 o weithiau** (y tudalennau unigryw a welwyd) ac 8,694 o weithiau (cyfanswm y tudalennau a welwyd) yn ystod y cyfnod hwn. | Mae ein gwybodaeth ar-lein am ddatblygu awduron wedi cael ei gweld **24,510 o weithiau** (y tudalennau unigryw a welwyd) a 31,562 o weithiau (cyfanswm y tudalennau a welwyd) ers 1 Ebrill 2019. | Google Analytics |
| Darperir cefnogaeth barhaus i gyfanswm o **4 awdur ifanc** (rhwng 16 a 30 oed) yn flynyddol | Mae **40 o awduron ifanc** o dan 30 oed ar hyn o bryd wrthi'n cael cefnogaeth gyson. Er enghraifft, gwnaeth yr egin fardd Taylor Edmonds gais llwyddiannus i'r Cynllun Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli, a chafodd ei ddewis hefyd ar gyfer Gwobr 'Rising Stars' Cymru 2020. Byddwn yn edrych ar effaith y cyfleoedd hyn ar ei ddatblygiad proffesiynol drwy'n Harolwg Hydredol 2019-2022. | Ers mis Ebrill 2019, mae cyfanswm o **65 o awduron ifanc** rhwng 16 a 30 oed wedi cael cefnogaeth gyson gan Llenyddiaeth Cymru. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae o leiaf **15 awdur profiadol** ac **17 darn o waith llenyddol** yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol | Bu **122 o awduron profiadol** a **139 o weithiau llenyddol** yn rhan o'n prosiectau proffil uchel. Yn eu plith mae Clare Mackintosh, awdur sydd wedi cyrraedd rhestr gwerthwyr gorau'r *Sunday Times* ac a fu'n diwtor ar ein cwrs 'Ysgrifennu Nofelau Trosedd a Chyffro' yn Nhŷ Newydd ym mis Tachwedd 2019. | Bu cyfanswm o **185 o awduron profiadol** a **223 o weithiau llenyddol** yn rhan o'n prosiectau proffil uchel. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar **o leiaf ddwy bartneriaeth a phrosiect cyfnewid** y tu allan i Gymru yn flynyddol | Rydym wedi **hwyluso a chydweithio ar 7 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid** y tu allan i Gymru. Er enghraifft, ym mis Tachwedd, fel rhan o flwyddyn UNESCO i ddathlu ieithoedd cynhenid, bu'n Prif Weithredwr, Lleucu Siencyn, yn cadeirio trafodaeth banel gyda Bardd Cenedlaethol Cymru, yr awdur Gwyddelig Ciara Ní É, a'r bardd-berfformiwr o'r Alban, Marcas Mac an Tuairneir. Bu'r awduron yn trafod iaith, llenyddiaeth a hunaniaeth ac yn darllen darnau o'u gwaith. | Rydym wedi hwyluso a chydweithio ar gyfanswm o **16 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru** ers 1 Ebrill 2019. | |
| Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf **dau gomisiwn y flwyddyn** yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill | Mae **20** o gomisiynau wedi'u rhoi i awduron profiadol drwy ein hymyraethau ni. Er enghraifft, rhannwyd cerdd Gymraeg gan Ifor ap Glyn ar y system drafnidiaeth gyhoeddus ym Mrwsel, a honno wedi'i chyfieithu i'r Iseldireg, Ffrangeg a'r Saesneg er mwyn rhoi llwyfan i ddiwylliant llenyddol Cymru. | Mae **27 o gomisiynau** wedi'u rhoi i awduron profiadol drwy ein hymyriadau ni. | |
| Mae o leiaf **ddau egin awdur** yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol | Mae **25 o awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel. Er enghraifft, cynhaliwyd digwyddiad blynyddol Cwrs Olwen yn Nhŷ Newydd gydag 13 o awduron ifanc a enillodd wobrau llenyddol yn 2019 yn dod ynghyd i gymryd rhan mewn gweithdai datblygu. | **Mae 31 o awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **70% o'n data** o brosiectau gweithredol gweithgarwch wedi'i storio yn ein hwb monitro a gwerthuso canolog | Mae'r data yn ein porth monitro a gwerthuso canolog wedi **cynyddu tua 20 pwynt canran** yn y cyfnod uchod (o 35% i 55%). Mae hyn o ganlyniad i'n dulliau casglu data misol newydd, fel rhan o'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso. Mae gofyn i staff gyflwyno data'n fisol. Mae hyn yn cynnwys data cod post ar gyfer gweithgareddau a data sy'n tracio camau datblygu ein prosiectau. | Hyd yma, mae tua **55% o'n data** wedi'i storio ar ein porth monitro a gwerthuso. Gan fod y mwyafrif o'r holiaduron yn dal ar agor, bydd canran gywirach yn cael ei chyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn Adroddiad #4. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol |
| Mae **1 Adroddiad Blynyddol** yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg | Rydym bellach yng nghamau cynnar cynllunio Adroddiad Blynyddol 2019-2020. Bydd crynodeb o'n blwyddyn, wedi'i seilio ar ffeithluniau ac uchafbwyntiau o'r gweithgareddau y bu inni'u profi yn yr adran 'Ein Heffaith' ar y wefan, yn cael ei greu ym mis Mai 2020 at ddibenion cyfathrebu'n allanol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol swyddogol gyda datganiadau ariannol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd y Cyfarwyddwyr i gael eu cymeradwyo yn hydref 2020. | Mae **1 Adroddiad Blynyddol** yn trafod ein heffaith wedi'i gylchredeg. | |
| Cynhyrchwyd **12 adroddiad gwerthuso misol** a **4 adroddiad gwerthuso chwarterol** | **Dyma'r trydydd o'r adroddiadau gwerthuso chwarterol.** Rydym wedi creu system safonol, fisol i gasglu data'n fewnol ar ôl cyfuno'r holl ofynion adrodd. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli'n cael y daenlen adrodd fewnol fisol gyntaf ym mis Mawrth 2020, a honno'n dangos y cynnydd tuag at y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r gwersi i'w dysgu. O hyn allan, bydd fersiynau cyhoeddus o'n hadroddiadau gwerthuso chwarterol ar gael ar ein gwefan. | Mae **3 adroddiad gwerthuso chwarterol** a **0 adroddiad gwerthuso misol** wedi'u creu hyd yma. | |
| **Caiff 70% o'r prosiectau newydd neu brosiectau parhaol eu cyflwyno** i'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae pob un yn cyfeirio at bwyntiau dysgu o'n dadansoddiad | Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu'r Cynllun Strategol presennol, rydym wrthi'n trafod a ddylem wneud mwy eto i ffurfioli'r broses o gyflwyno syniadau am brosiectau. Nid oes unrhyw brosiectau newydd neu barhaol wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn. | Hyd yma, **mae 66% o'r prosiectau newydd rydym yn gweithio arnynt** wedi cael eu cynnig a'u trafod yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Adnoddau Dynol**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **40% o'r staff** wedi bod i o leiaf **dair sesiwn hyfforddi ar draws timau** | Mae **4 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol** wedi cael eu cynnal. Bu'r holl aelodau o staff mewn 2 sesiwn hyfforddiant ar bolisïau newydd a pholisïau wedi'u diweddaru (Taliadau i Ymddiriedolwyr/Caffael/Teithio a Chynhaliaeth) a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bu ymgynghorwyr allanol yn rhoi hyfforddiant i'r holl staff ar Ragfarn Ddiarwybod, ac i'r Uwch Dîm Rheoli ar Reoli Llinell. | Mae **8 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol** wedi'u cynnal hyd yma, gyda chyfartaledd o **80% o'r staff** yn bresennol. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **2 aelod o staff** wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau) | Mae **2 aelod o staff** yn elwa o ddatblygu proffesiynol parhaus yn ystod y cyfnod hwn. Mae ein Swyddog Cyllid wrthi'n astudio ar gyfer cymhwyster cyfrifyddu AAT Lefel 4 ac mae ein *Intern* Creadigol yn dilyn rhaglen hyfforddiant a mentora busnes fel rhan o'r Cynllun Interniaeth Greadigol Celfyddydau a Busnes. | Mae **3 aelod o staff** hyd yma wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. | |
| Mae lefelau boddhad staff wedi cynyddu **o leiaf 7%** | Bydd arolwg o les y staff yn cael ei gynnal ar ôl yr Adolygiad Sefydliadol ac fel rhan o Gynllun Lles y Staff. Bydd hyn yn rhoi data sylfaenol ar gyfer y targed hwn. | Fel y nodwyd i'r chwith. | Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad |
| Mae **o leiaf 5%** o'n cyflogeion, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn bobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, mae gan **5%** anableddau, ac mae **1** o'r rhain yn uwch aelod o staff ac yn aelod o'r Bwrdd (yn ddibynnol ar fod lleoedd gwag yn codi) | Mae **11.45%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae **3** o'r rhain mewn swyddi uwch. Mae gan 0% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr anableddau, er ein bod newydd gytuno ar delerau ar gyfer intern sydd â nam symudedd, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2020. Gwnaed 3 penodiad yn y cyfnod hwn. | Fel y nodwyd i'r chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn wedi gweithio gydag o leiaf **7 gwirfoddolwr** | Rydym wedi gweithio â **25 o wirfoddolwyr** yn y cyfnod uchod. Mae un o'n gwirfoddolwyr rheolaidd yn cymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2019-2022, felly byddwn yn gallu gweld sut mae ymwneud â'n gweithgareddau wedi effeithio ar ei ddatblygiad proffesiynol. | Rydym wedi gweithio â chyfanswm o **63 gwirfoddolwr** ers 1 Ebrill 2019. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| **Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd** wedi'i lansio, ac o leiaf **30** o Ffrindiau newydd yn ymuno | Mae Pennaeth Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd **wrthi'n datblygu** cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, a fydd yn cyd-fynd â chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru. | Fel y nodwyd i'r chwith. | |
| **Manylebau gwaith newydd** wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwydr | Mae hyn yn cael ei drafod â'r penseiri, a'r rhagolwg yw y bydd y ffi bras yn rhan o gostau Gwaith Tŷ Newydd 2019/2020. | Fel y nodwyd i'r chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| **Adnewyddu 2 ystafell wely** i safon uchel | Ni chafodd unrhyw ystafelloedd gwely eu hadnewyddu yn y cyfnod hwn, ond mae eitemau newydd wedi'u prynu i wella rhai ystafelloedd, gan gynnwys gwlâu newydd ym mhrif ystafelloedd gwely Lloyd George a Frances. | Mae **1 ystafell wely** wedi'i hadnewyddu i safon uchel. | |
| Mae o leiaf **85%** o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd **90%** y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol | Ers mis Ebrill 2019, cytunodd **86%** o'r rheini a oedd yn bresennol fod yr ymweliad wedi'u helpu i wneud cynnydd fel awdur, a dywedodd 79% y byddent yn dychwelyd. Bydd yr holl ganlyniadau'n cael eu cyflwyno yn Adroddiad #4. | Fel y nodwyd i'r chwith. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Llywodraethu ac Ymgynghori**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Cynnal arolwg gyda grŵp cynrychioladol o **o leiaf 70 unigolyn** o grwpiau rhanddeiliaid ac sy'n cynrychioli partneriaid strategol o leiaf unwaith y flwyddyn | Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddwyd ein hail arolwg rhanddeiliaid ar-lein a'i anfon at yr ystod lawn o dros 800 o randdeiliaid a dargedwyd. Cwblhaodd **85 o unigolion** yr arolwg. Dywedodd un cleient: “Mae'r Cynllun Strategol yn gryno, yn glir ac yn rhwydd i'w ddarllen. Rwy'n credu bod y dyluniad yn cyd-fynd yn dda â'r cynnwys ac mae'n ddogfen ddiddorol...” | Mae 1 arolwg o randdeiliaid wedi'i gwblhau gan sampl o **85 unigolyn**. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Cynnal cyfweliadau neu drafod ein gwaith gyda rhwydwaith gynrychioladol o **o leiaf 15 Cyfaill Beirniadol** o leiaf unwaith y flwyddyn | Cawsom gyfarfod ag **1 Ffrind Beirniadol** a'i gyfweld am ein Cynllun Strategol, proses ymgynghori'r llynedd, a'r cynnydd hyd yma. | I gyd, rydym wedi cyfarfod ag **17 Ffrind Beirniadol** ers 1 Ebrill 2019. | |
| Cynnull **2 gyfarfod Grŵp Ymgynghori'r Bwrdd Rheoli**, **10 cyfarfod Gweithrediadau'r Uwch Dîm Rheoli** ac **1 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff** yn flynyddol | Cynhaliwyd **1 cyfarfod o Grŵp Cynghori'r Bwrdd Rheoli.** Mae **3 chyfarfod Materion Gweithredol** wedi eu cynnal gan yr Uwch Dîm Rheoli. Bwriedir cynnal y diwrnod Cynllunio Creadigol nesaf i staff amrywiol ym mis Mawrth 2020. | I gyd, mae **3 o gyfarfodydd Grŵp Cynghori'r Bwrdd Rheoli, 7 cyfarfod o'r Uwch Dîm Rheoli – Materion Gweithredol** ac **1 sesiwn Cynllunio Creadigol i staff amrywiol** wedi'u cynnal. | |
| **Rhannu dadansoddiad** o adborth rhanddeiliaid drwy adroddiadau gwerthuso misol a chwarterol, a chyfeirio ato wrth wneud penderfyniadau | **Rhannwyd adborth gan randdeiliad** â'r Cyfarwyddwyr yn ystod Bwrdd Rheoli #34, ac â'r holl staff a'r Uwch Dîm Rheoli fel rhan o'r gwaith o adolygu'r Cynllun Strategol presennol. Bydd dadansoddiadau o adborth yn y dyfodol yn cael eu rhannu mewn adroddiad ar wahân pan fyddant ar gael, rhag colli golwg ar y manylion. | Fel y nodwyd i'r chwith. | Cynigion prosiect a chofnodion cyfarfodydd |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Hwyluso'r Sector**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Peidio darparu mwy na **10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn** | Mae Llenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd yn **darparu 10 o brosiectau'n uniongyrchol**: Hyfforddiant a Chysgodi i Awduron; Llên Pawb \| Lit Reach; Children's Laureate Wales; Sgwad Sgwennu Cenedlaethol Tŷ Newydd; Ysgoloriaethau i Awduron; Cynllun Mentora Awduron; Cyrsiau Ysgrifennu Creadigol Tŷ Newydd; Llyfr y Flwyddyn; Bardd Cenedlaethol Cymru. | Ers mis Ebrill 2019, mae Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn darparu **10 prosiect** i gyd yn uniongyrchol. | Ein hadroddia dau gwerthus o a chynnydd prosiectau |
| Cefnogi **o leiaf 20 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid** fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol | Rydym wedi cefnogi **21 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid** yn y cyfnod hwn, a hynny drwy wneud gwaith hwyluso neu fod yn bartneriaid eilaidd. Er enghraifft, fe wnaethom ni, y Scottish Poetry Library a'r Forward Arts Foundation ddod ynghyd i greu cyfres o chwe cherdyn post barddonol arbennig ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth 2019. Roedd y prosiect yn cefnogi Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO, ac roedd yn cynnwys cerddi Gaeleg, Cernyweg, Cymraeg, Sgoteg a Manaweg. | Rydym wedi cefnogi **81 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid**, a hynny drwy wneud gwaith hwyluso neu fod yn bartneriaid eilaidd. | |
| Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i **o leiaf 150 o unigolion**, **grwpiau a sefydliadau** yn flynyddol | Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, fe wnaethom gwblhau dros 321 awr o waith hwyluso i'r sector, a hynny i **303 o unigolion, grwpiau a sefydliadau.** Er enghraifft, fe gawsom gyfarfod â Phrif Weithredwr Vale and Community Arts i rannu arferion gorau wrth redeg elusen ym maes y celfyddydau. Fe wnaethom gefnogi'r elusen drwy rannu ein polisïau, fersiwn hir ein Cynllun Strategol, gwybodaeth am y Nod Elusennau Dibynadwy a Phecyn Cymorth Weston Jerwood. | Rydym wedi cwblhau dros 760 awr o waith hwyluso i'r sector, a hynny i **607 o unigolion, grwpiau a sefydliadau.** | |
| Rydym wedi ysgogi **o leiaf 4** prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol **mewn meysydd lle mae angen** | Mae **8 prosiect llenyddol cynaliadwy sy'n cael eu cynnal gan y bobl eu hunain** wedi'u dechrau, a hynny mewn **ardaloedd ble mae angen.** Er enghraifft, ym mis Hydref dechreuodd y Gymdeithas Dai Melin Homes weithdai ysgrifennu y maent yn eu hariannu'u hunain, a'r rhain wedi'u datblygu ar ôl llwyddiant y prosiect Llên Pawb a arweiniwyd gan Mike Church yn 2018/19. | I gyd, mae **14 o brosiectau llenyddol cynaliadwy sy'n cael eu cynnal gan y bobl eu hunain** wedi'u dechrau mewn ardaloedd ble mae angen ers mis Ebrill 2019. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

## Ailddatblygiad Nant

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2019 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| **Cynhaliwyd gwaith gyda'r staff a'r Bwrdd** i sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau i gyflawni'r Cynllun Strategol erbyn mis Mawrth 2020 | Mae Nant wedi parhau i groesawu amrywiaeth o gwsmeriaid drwy'r drws, gan gynnwys egin awdur anabl, a gafodd gyfarfod â'r staff i drafod sut y gallem ei helpu i ddatblygu'i chrefft, a Bardd Cenedlaethol Cymru. Yn y cyfnod uchod cafwyd incwm o **£844** drwy logi'r lleoliad ac incwm o **£5,000** o gyrsiau. | Cwblhawyd ailddatblygiad Nant ar **28 Mehefin 2019** ac mae ar agor yn llwyr i gwsmeriaid.<br><br>Cafwyd cyfanswm incwm o **£16,608** drwy Nant hyd yma, drwy logi'r lleoliad ac o gyrsiau. | Adroddiadau diweddaru Nant a'n cyfrifon chwarterol |

# Gwerthuso*

## Gwersi **Sefydliadol a Gweithredol** i'w Dysgu

### Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu
**1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019**

- Mae Cymru ar ei hôl hi o'i chymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig wrth fynd i'r afael â **thangynrychiolaeth** ymhlith unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig yn ein llenyddiaethau a'n cymuned o awduron. Mae hyn yn amlycach fyth yn y Gymraeg. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, mae angen i'r holl sector ymrwymo i newid.

- Pa mor atyniadol bynnag yw hynny, ni fyddai **rhannu arferion gorau am waith yng Nghymru** i fynd i'r afael ag arferion gwael mewn partneriaethau a phrosiectau yn llesol, gan y byddai'n rhoi'r neges bod drysau ar gau.

- Mae angen adolygu ein partneriaid presennol, a'n dull o **weithio mewn partneriaeth.** Mae angen sicrhau ein bod yn datblygu perthnasau ystyrlon, strategol a fydd yn ein helpu i gyflawni ein Prif Nodau Llwyddiant, neu i elwa'n wleidyddol neu'n ariannol, yn unol â'n Gwerthoedd.

- Dangosodd ein **Harolwg o Randdeiliaid 2019** fod pobl yn sylwi ar ein hymdrechion cynyddol i fynd i'r afael â Chydraddoldeb a Chynrychiolaeth yn y sector, ond nad yw newidiadau eraill (e.e. mwy o dryloywder yn ein prosesau caffael) wedi denu sylw hyd yma.

### Prosiectau Gweithredol
**1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019**

- Arweiniodd **maint y sampl yn yr arolwg o randdeiliaid** (65 o ymatebwyr Saesneg / 20 o ymatebwyr Cymraeg), a oedd yn llai fyth yn achos rhai cwestiynau, at rai canlyniadau annibynadwy ac anghynrychioladol. Y flwyddyn nesaf, mae angen inni hyrwyddo'r arolwg yn well a'i anfon at bobl ym mis Tachwedd cyn egwyl y gaeaf. Mae angen inni hefyd geisio cael adborth gan unigolion nad ydynt ar hyn o bryd yn gwybod amdanom.

- Cafodd yr **hyfforddiant i staff** ar bolisïau newydd neu bolisïau sydd wedi'u diweddaru gryn groeso, ac mae angen i hyn ddod yn arfer safonol.

- Roedd y **sesiwn Myfyrio ar Reoli Llinell** i'r Uwch Dîm Rheoli yn werthfawr a gellid ymgorffori'r egwyddorion ar gyfer 'Rheoli Llinell Da yn LlC' mewn disgrifiadau swyddi ac yn yr arfarniadau Adnoddau Dynol blynyddol.

- Cafodd ein **Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** ar ei newydd wedd ei dosbarthu i sampl cynrychioladol o'n cleientiaid. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2019, gwelwyd nad oedd Cyfrifiad 2021 yn galluogi unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i ddynodi eu bod yn Gymry. Er mwyn ymateb i hyn, newidiwyd ein ffurflen i alluogi cleientiaid i ddynodi eu cenedligrwydd a'u hethnigrwydd ill dau.

*Noder – Rydym yn treialu cynnwys gwybodaeth werthuso yn yr adroddiad hwn. Bydd rhagor o gynnwys ar gael wrth i adroddiadau Monitro a Gwerthuso pob prosiect gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2020.

# Gwerthuso

## Gwersi i'w dysgu o'n **Gweithgareddau**

| Gweithgareddau | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2019 | Camau Gweithredu / Argymhellion i'r Dyfodol |
|---|---|---|
| **Y Cynllun Nawdd Llên a Lles** | Roedd y prosiect '**Prison Heads**', a ariannwyd gan y Cynllun Nawdd Llên a Lles ac a arweiniwyd gan yr awdur Connor Allen, yn darparu un sesiwn bob wythnos dros gyfnod o fis. Nid oedd y rheini a oedd yn cymryd rhan yn bresennol bob tro, sy'n dangos natur anrhagweladwy gweithio gyda phobl 16-18 oed yn y system garchardai. | Byddai'n fwy buddiol **cywasgu'r prosiect** dros gyfnod o wythnos i sicrhau bod yr un bobl ifanc yn bresennol a'u bod yn canolbwyntio ac yn mwynhau. |
| **Ffrindiau Darllen** | Gyda dwy erthygl ddiweddar yn *The Times* yn canolbwyntio ar **Ffrindiau Darllen** yn Abertawe a Chonwy, yn ogystal â manteision amlwg y prosiect i iechyd a lles pobl, mae'n glir hefyd fod 'stori'r gwirfoddolwyr' wedi bod yn gymorth mawr i ennyn diddordeb ac ymddiriedaeth yn y prosiect a'r brand. | Dylem roi **ystyriaeth fanylach i ddefnyddio gwirfoddolwyr** mewn prosiectau eraill rydym eisoes yn eu cynnal neu'n gwneud ceisiadau i'w darparu. |
| **Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli** | Cafodd y cyhoeddiad ynghylch ymgeiswyr llwyddiannus y cynllun **Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli** gyrhaeddiad da, gan ennyn llawer o ddiddordeb ar ein platfformau ar-lein. O ganlyniad, mae nifer o sefydliadau wedi cysylltu â ni i rannu gwybodaeth am gam datblygu'r prosiect ac i fod yn bartner wrth ddarparu cynlluniau eraill i awduron sy'n cael eu tangynrychioli. | Mae ein Blaenoriaeth Dactegol, Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb, yn dal i gael ei datblygu. Fodd bynnag, cyn belled ag y byddwn yn **parhau i fod yn dryloyw ac yn onest ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth** gydag ystod o awduron, mae llwyddiant y prosiect wedi rhoi sicrwydd inni y bydd y sector yn croesawu gwaith sy'n cael ei arwain gan Llenyddiaeth Cymru i gyflwyno mwy o amrywiaeth yn y sector. |